



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Estyn

Polisi Iaith Gymraeg

Tudalen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

Am fwy o gyngor cysylltwch â: Clive Phillips

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2017

Dyddiad adolygu arfaethedig: Arferir effaith y polisi'n rheolaidd a gwneir addasiadau'n unol ag unrhyw ganfyddiadau

Rheolaeth fersiwn

Dogfen fersiwn	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Newidiadau allweddol a wnaed
1.0	Clive Phillips	Tach 2017	
2.0	Clive Phillips	Ebrill 2021	

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn at:

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at ymholiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Asesiad Effaith

- Cynhaliwyd asesiad rhesymeg busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.
- Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar unrhyw berson ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Cyflwyniad	1
Datblygiadau polisi	1
Gohebiaeth	1
Cyfathrebu â'r cyhoedd	2
Cyfarfodydd	2
Ein hwyneb cyhoeddus	3
Cyhoeddiadau	3
Gwefan a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu	4
Gwasanaethau a gyflwynir ar ran Estyn gan bobl eraill	4
Codi ymwybyddiaeth ynghylch y Polisi	5
Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol	5
Hyfforddiant i arolygwyr	6
Cwynion a wneir gan aelodau o'r staff	6
Technoleg gwybodaeth, deunyddiau cymorth a'r fewnrwyd	6
Meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu	6
Recriwtio a phenodi	7
Cadw cofnodion	8
Goruchwylio cydymffurfiaeth	8
Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg	9

Cyflwyniad

Caiff y polisi hwn ei gefnogi'n llawn gan Brif Arolygydd ei Mawrhydi a thîm rheoli uwch Estyn. Mae gweithgor iaith Gymraeg Estyn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob lefel o'r sefydliad ac mae'n cwrdd yn rheolaidd er mwyn monitro a chefnogi'r modd y caiff y polisi ei weithredu. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau llwyddiant y polisi. Rydym yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein gwaith, yn fewnol ac wrth arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Cenhadaeth Estyn yw parhau i gyflawni rhagoriaeth ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghor annibynnol, o ansawdd uchel. Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn gweld yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn darparu ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r polisi yn ystyried yn llawn ofynion safonau'r iaith Gymraeg ac yn adlewyrchu'n harfer cyfredol ar draws y meysydd hynny y mae'r safonau yn ymwneud â nhw.

Mae Estyn wedi mabwysiadu'r egwyddor ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r polisi yn amlinellu'r modd y mae Estyn yn gweithredu yn unol â'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Datblygiadau polisi

Mae gweithgor yr iaith Gymraeg yn asesu pa effaith gaiff y polisi corfforaethol newydd neu ddiwygiedig ar gyfleoedd i staff ac eraill a gaiff eu heffeithio gan y polisi i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Mae'r ymarfer asesu effaith yn sicrhau nad yw'r polisi newydd neu ddiwygiedig yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Caiff y polisi ei gytuno'n ffurfiol gan y gweithgor yn dilyn yr ymarfer asesu effaith hwn.

Gohebiaeth

Rydym yn croesawu llythyrau a negeseuon electronig yn Gymraeg neu yn Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, rydym yn ateb yn Gymraeg, os oes angen ateb. Ein targed ar gyfer ateb llythyrau Cymraeg a Saesneg yw deg diwrnod.

Rydym yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r rhai y gwyddom fod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn sicrhau bod unrhyw gylchlythyr, llythyr neu ffurflen safonol a gyflwynir i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Rydym yn ysgrifennu llythyrau at unigolyn, grwpiau neu sefydliad yn newis iaith y gohebydd. Os nad ydym yn gwybod beth yw'r dewis iaith, mae'r llythyr cychwynnol yn ddwyieithog ac rydym yn cynnwys datganiad ysgrifenedig i gyfleu ein bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg ac y byddwn yn ateb yn Gymraeg. Rydym yn cadw cofnod o ddewis iaith y gohebydd ar gyfer gohebiaeth ddilynol. Mae'r holl staff yn cael gwybod am y

trefniadau hyn, a rhoddir cymorth yn ôl yr angen i aelodau o staff nad ydynt yn medru'r Gymraeg i gyfathrebu â'r cyhoedd. Mae'r holl staff newydd yn cael hyfforddiant ar y trefniadau hyn, ac mae cyfarwyddiadau desg yn cael eu paratoi i helpu staff i gydymffurfio â'r polisi.

Mae'r holl awto-lofnodion, ymwadiadau ac atebion allan o'r swyddfa yn ddwyieithog. Defnyddiwn logo iaith Gwaith ar ein awto-lofnodion electronig ac rydym yn datgan ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a bydd gohebiaeth yn yr naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Cyfathrebu â'r cyhoedd

Mae croeso i'r cyhoedd sy'n dymuno delio ag Estyn wyneb yn wyneb wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'u dewis. Nid oes gan Estyn dderbynyddion ffôn dynodedig; fodd bynnag, mae croeso i unrhyw un sy'n ein ffonio wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae pawb yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog ac yn ogystal byddwn yn rhoi gwybod yn rhagweithiol i'r galwr fod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael ar y cyfle cyntaf posibl, os nad yw'r alwad eisoes yn cael ei chynnal yn Gymraeg. Gallant ddisgwyl cael eu trosglwyddo i aelod o staff sy'n gallu sgwrsio â nhw yn Gymraeg os ydynt yn dymuno, os nad yw'r aelod o staff sy'n ateb yn gyntaf yn medru'r Gymraeg. Byddwn yn cynnwys datganiad ar unrhyw ddeunydd neu gyfrwng sy'n cyhoeddi ein rhifau ffon ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.

Byddwn ni'n trin galwadau a wneir trwy gyfrwng technoleg fideo-gynadledda yn yr un modd.

Mae ein system ffôn awtomataidd yn rhoi dewis i bobl sy'n ffonio siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg a gadael negeseuon yn y naill iaith neu'r llall. Pan fyddwn yn ffonio rhywun am y tro cyntaf rydym yn gofyn iddynt a ydynt yn dymuno cael galwadau ffôn yn Gymraeg. Os ydynt yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rydym yn cadw cofnod o'u dymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir iddynt o hynny ymlaen yn Gymraeg.

Mae negeseuon clywadwy yn y lifftiau yn ein swyddfeydd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn parhau i wella ein capasiti i gyflwyno gwasanaethau rheng flaen effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd drwy gynnig hyfforddiant addas i aelodau staff newydd a'r rheiny sydd yn symud i swyddi perthnasol.

Cyfarfodydd

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno delio ag Estyn wyneb yn wyneb wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'u dewis. Wrth drefnu cyfarfodydd gydag un neu ragor o wahoddedigion, rydym yn sicrhau y cynhelir y cyfarfodydd yn eu dewis iaith gan holi iddynt yn rhagweithiol o flaen llaw ym mha iaith hoffent gyfrannu.

Wrth drefnu cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd, rydym yn gwneud y trefniadau ymarferol sydd eu hangen i sicrhau bod pawb yn gallu siarad yn eu dewis iaith. Mae

hyn yn berthnasol i gyfarfodydd arolygu wedi'u harwain gan AEM, arolygwyr wedi'u secondio i Estyn ac arolygwyr dan gontract. Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd i rieni cyn arolygiadau, rydym yn sicrhau bod y tîm arolygu yn medru cynnal y cyfarfod yn newis iaith y rhieni sy'n bresennol yn unol â threfniadau arferol yr ysgol.

Mae croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg mewn cyfarfodydd a chynadleddau a drefnir gennym. Rydym yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus (oni bai ein bod wedi pennu'r ffaith fod pob un o'r cyfranogwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith). Mae unrhyw wahoddiadau a hysbysebion a gyhoeddir cyn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a naill ai'n nodi bod cyfleusterau cyfieithu ar gael, neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw ym mha iaith y maent yn dymuno siarad.

Rydym yn trefnu nifer priodol o sesiynau ymneilltuo cyfrwng y Gymraeg yn ein cyrsiau hyfforddi a chynadleddau, gan gynnwys y rheiny a gynhelir drwy gyfrwng technoleg fideo-gynadledda. Mae trefnwyr cyrsiau yn dilyn yr arweiniad hwn wrth drefnu gweithdai a grwpiau trafod. Mae rhagdybiaeth o blaid cael grwpiau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn hytrach na grwpiau iaith cymysg gyda chyfieithu ar y pryd. Pan gynhelir a recordir sesiynau o'r fath drwy ddefnyddio dechnoleg fideo-gynadledda dylid sicrhau bod y fersiwn Cymraeg ar gael i fynychwyr gydag is-deitlau Saesneg.. Fodd bynnag, pan fo rhesymeg ddilys dros gynnal grwpiau cymysg bydd angen ei wneud drwy ddefnyddio cyfieithu ar y pryd i gadw at yr egwyddor o gyfartaledd ieithyddol.

Ein hwyneb cyhoeddus

Mae enw, cyfeiriad a logo Estyn yn ddwyieithog ac yn cael eu defnyddio yn yr holl gyhoeddiadau, ffurflenni, deunydd ysgrifennu, cyfeiriadau, cyflwyniadau a gohebiaeth electronig. Pan fo'n briodol, defnyddiwn logo iaith Gwaith a geiriad sy'n esbonio ein bod yn croesawu defnydd o'r Gymraeg. Mae'n well gennym i'r ddwy iaith gael eu gosod ochr yn ochr â'i gilydd, gyda'r Gymraeg ar y chwith. Mae arwyddion gwybodaeth yn swyddfa Estyn yn ddwyieithog, gyda'r un amlygrwydd yn cael ei roi i'r ddwy iaith o ran fformat, maint, ansawdd ac eglurder. Ni fyddem yn ystyried newid i hunaniaeth Estyn a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyhoeddiadau

Mae pob un o'r cyhoedd yn gallu darllen holl gyhoeddiadau Estyn sy'n berthnasol i Gymru gyfan yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall unrhyw un sy'n gysylltiedig ag unrhyw sefydliad addysg neu hyfforddiant yng Nghymru ddisgwyl bod adroddiadau a gyhoeddir gan Estyn ar sefydliadau unigol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog pan fydd y sefydliad yn gofyn hynny, neu yn achos ysgolion neu wasanaeth awdurdod lleol, ar gais yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Pan nad ofynnir am adroddiad dwyieithog, mae adroddiadau ar sefydliadau unigol yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

Mae'r holl ffurflenni cyhoeddedig a'r deunydd esboniadol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mewn amgylchiadau lle mae'n fwy priodol cyhoeddi ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân, (e.e. pan fydd dogfennau sy'n cael eu llunio'n ddwyieithog yn anhylaw), rydym yn cyhoeddi'r ddwy fersiwn ar yr un pryd ac yn trefnu bod y naill a'r llall ar gael.

Mae'r fersiwn Saesneg yn datgan bod fersiwn Cymraeg ar gael a'r ffordd arall.

Mae'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, mewn print neu fformat arall, ac yn cynnwys deunydd arddangos, yn Gymraeg a Saesneg. Mae ansawdd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath â'i gilydd, ac maent ar gael ar yr un pryd.

Gwefan a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Rydym yn annog ac yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn gohebiaeth electronig. Rydym yn cynnal gwefan ddwyieithog ar gyfer Estyn. Mae cynnwys Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd ar ein gwefan. Rydym yn defnyddio'r un egwyddorion ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan, yn unol â'r manylion yn y polisi hwn o dan 'Cyhoeddiadau'. Mae dogfennau mewnol yn ymddangos yn eu hiaith neu'u hieithoedd gwreiddiol ar ein mewnwrwyd.

Wrth ddylunio gwefannau newydd / apiau, datblygu ein gwefannau presennol, caffael technoleg newydd, neu wrth ailddatblygu ein technoleg bresennol, p'un a yw ar y we neu'n feddalwedd cefn swyddfa, rydym yn dilyn canllawiau a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ble bynnag yr ydym yn cynnig gwasanaethau trafodol, fel cofrestru neu dalu bil, cynigir dewis iaith bob tro. Mae unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â datblygu gwefannau neu gynnal cyfarfodydd drwy dechnoleg megis fideo-gynadledda, yn cael ei ystyried hefyd. Rydym yn mabwysiadu'r egwyddorion uchod ar gyfer cyfryngau cymdeithasol eraill, fel Twitter, Facebook ac YouTube. Mae hysbysiadau i'r wasg am bob agwedd ar ein gwaith yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg gan sicrhau'r un flaenoriaeth i'r ddwy iaith. Mae hysbysiadau'n cael eu dosbarthu i ganolfannau'r cyfryngau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yng Nghymru.

Gwasanaethau a gyflwynir ar ran Estyn gan bobl eraill

Mae Estyn yn adolygu'r holl bolisiau a thendrau newydd/diwygiedig i sicrhau bod effaith y polisi/tendr ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cael e hystyried yn briodol. Mae'r broses hon yn sicrhau bod cysondeb ar draws y sefydliad o ran cymhwyso'r gofynion na ddylai bolisiau a thendrau newydd a diwygiedig drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a ph'un a yw polisi newydd neu ddiwygiedig yn cael effaith gadarnhaol neu niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Gellir rhannu ein proses dendro yn gaffael sy'n gysylltiedig ag arolygu ac nad yw'n gysylltiedig ag arolygu.

Caffael yn gysylltiedig ag arolygu yw'r un mwyaf helaeth o bell ffordd gan ei fod yn cynnwys proses lle mae arolygwyr ychwanegol yn tendro am swydd i gael eu

cynnwys ar ein timau arolygu. Rydym yn cyflwyno tendrau ar gyfer arolygwyr ychwanegol, arolygwyr lleyg neu arolygwyr arweiniol ar bron bob un o'n harolygiadau. Rhaid i arolygwyr sy'n dymuno tendro nodi eu gallu i gynnal arolygiadau cyfrwng Cymraeg a/neu Saesneg. Rydym wedi llunio taflen ddwyieithog 'Gwasanaethau Cymraeg Estyn mewn Perthynas ag Arolygiadau', sy'n amlinellu arweiniad clir i arolygwyr. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn mynnu cydymffurfiaeth â'n Polisi Iaith Gymraeg ar bob manyleb tendr, ni waeth pa nwyddau/gwasanaethau sydd eu hangen. Mae'r Cofnod Contractau yn cofnodi bod gwiriad cydymffurfio Cymraeg wedi cael ei gynnal ym mhob achos.

Codi ymwybyddiaeth ynghylch y Polisi

Rydym yn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r polisi trwy ei gyhoeddi ar wefan Estyn. Rydym yn hybysu'r cyhoedd yn rhagweithiol bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac yn annog defnydd o'r gwasanaeth hwnnw.

Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol

Pan gynigir swydd newydd i unigolyn gofynnir i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg, a gweithredwn yn unol â'i ddymuniad. Rydym yn gofyn i bob cyflogai a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi ei chyfeirio'n bersonol atynt yn Gymraeg. Rydym yn gofyn i bob cyflogai a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu'r materion isod yn Gymraeg ac, os ydynt yn dymuno, rydym yn eu darparu yn Gymraeg:

- anghenion neu ofynion eu hyfforddiant
- dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad
- dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi eu cynllun gyrfa
- unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, (c) oriau gwaith hyblyg

Rydym yn cyhoeddi polisiâu ynghylch y materion isod yn y gweithle yn Gymraeg:

- ymddygiad
- iechyd a lles
- cyflogau neu fuddion
- rheoli perfformiad
- absenoldeb o'r gwaith
- amodau a phatrymau gwaith

Rydym yn darparu crynodeb i staff newydd o'r hyn sydd ar gael yn y Gymraeg iddynt yn ogystal ag esbonio'r hyn sydd yn ddisgwylidig o staff o ran cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol ac amlinellu ein gweledigaeth gorfforaethol o ran ymestyn defnydd mewnol o'r Gymraeg.

Hyfforddiant i arolygwyr

Rydym yn trefnu ac yn darparu hyfforddiant cychwynnol, trosi a diweddarau i'n harolygwyr (arolygwyr cofrestredig, ychwanegol, cymheiriaid a lleyg, ymgynghorwyr her ac enwebeion). Caiff y sesiynau grŵp eu cyflwyno yn eu dewis iaith, cyhyd â bod hyn yn ymarferol bosib. Mewn sectorau llai, pan nad yw'n bosib cynnal grwpiau hyfyw trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, rydym yn trafod gydag arolygwyr unigol sut y gallwn ddiwallu eu hanghenion orau o ran hyfforddiant a iaith. Mewn sesiynau llawn, rydym yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n briodol ac nad yw un iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r llall. Rydym yn trin hyfforddiant wyneb yn wyneb ac o bell yn yr un modd.

Cwynion a wneir gan aelodau o'r staff

Rydym yn gweithredu polisiâu ynghylch cwynion a disgyblu sydd yn caniatáu i aelodau staff ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg. Cynigir cyfarfodydd wyneb yn wyneb, trwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg os yw'n ofynnol. Rydym yn rhoi gwybod i aelod o staff am y penderfyniad mewn perthynas â chwyn a wneir gan yr aelod hwnnw neu mewn perthynas â chwyn a wneir amdano neu am benderfyniad a wneir yn dilyn proses ddisgyblu yn Gymraeg. Cyhoeddir y polisiâu hyn mewn unrhyw ddogfennau sy'n nodi gweithdrefnau cwynion neu ddisgyblu.

Technoleg gwybodaeth, deunyddiau cymorth a'r fewnrwyd

Rydym yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg ar holl gyfrifiaduron Estyn. Mae gennym fewnrwyd ddwyieithog gan gynnwys rhyngwyneb a dewislenni. Mae testun pob tudalen ar gael yn Gymraeg a nodir yn glir ar dudalennau Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg a darperir dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu

Rydym yn asesu sgiliau Cymraeg cyflogaion ac yn ystyried eu hanghenion hyfforddi a nodir yn ystod y cyfnod ymsefydlu ac mewn gwerthusiadau'n ddiweddarach. Ar sail y wybodaeth hon cynllunir cyrsiau datblygiad iaith, yn unol ag anghenion yr unigolion ac Estyn.

Rydym yn darparu hyfforddiant ar wella ysgrifennu yn Gymraeg ar gyfer arolygwyr. Yn ystod wythnosau hyfforddiant corfforaethol a chynadleddau cynigir cyfleoedd i staff gynnal grwpiau trafod yn Gymraeg. Rydym yn cynnig hyfforddiant yn rhad ac am ddim i aelodau staff ddatblygu a gwella eu medrau iaith. Cyflawnir hyn drwy ddarparu gwersi yn ystod oriau gwaith neu drwy gefnogi staff sy'n mynychu cyrsiau a gynhelir gan ddarparwyr Cymraeg i Oedolion. Disgwylir i bob aelod o staff newydd

gwblhau cyrsiau blasu ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rydym yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob aelod newydd o staff sy'n cynnwys ymwybyddiaeth fras am hanes yr iaith a'i lle yn hanes Cymru, dealltwriaeth o ofynion safonau'r iaith Gymraeg a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Rydym yn annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol fel rhan o'n gweledigaeth a'n bwriad i weld Estyn yn gorff gwirioneddol ddwyieithog naturiol.

Rydym yn darparu geiriad a logo ar gyfer llofnodion e-bost staff sy'n dynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. Rydym yn cynnwys yr un logos ar gefnlenni corfforaethol ar gyfer fideo–gynadledda. Yn yr un modd rydym yn darparu cortynnau gwddf i staff sy'n cynnwys logo corfforaethol Estyn yn ogystal â logo iaith Gwaith i nodi os ydynt yn rhugl yn y Gymraeg neu yn ei dysgu. Rydym yn darparu geiriad fydd yn galluogi staff i gynnwys fersiwn Cymraeg o'u manylion cyswllt ac unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e bost.

Rydym yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg i staff arolygu a chorfforaethol ar nifer o themâu pan fo angen hyfforddiant arnynt yn unol â gofynion Safon 124. Cyflawnir hyn drwy gyrsiau wyneb yn wyneb neu o bell. Darperir hyfforddiant i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Recriwtio a phenodi

Wrth recriwtio staff, mae'r Prif Arolygydd yn ystyried anghenion y busnes o ran nifer a gallu'r staff presennol i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, a lle mae diffygion mae'n hysbysebu yn unol â hynny. Rydym yn sicrhau bod medrau Cymraeg ar gael mewn swyddi a/neu dimau lle:

- darperir gwasanaethau rheng flaen
- maent yn staff cyswllt gyda sefydliadau cyhoeddus sy'n medru'r Gymraeg, yn cynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau
- maent yn trefnu cynadleddau/digwyddiadau allanol Estyn
- mai'r prif ddiben yw darparu gwasanaethau/gwybodaeth i'r cyhoedd, e.e. cydlynwyr arolygu

Cyn hysbysebu swydd wag, mae'r medrau sydd eu hangen yn y Gymraeg ar gyfer y swydd yn cael eu hasesu yn unol â'r canlynol:

- mae medrau yn y Gymraeg yn hanfodol; neu
- mae medrau yn y Gymraeg yn ddymunol

Pan ystyrir bod medrau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, caiff hyn ei egluro mewn hysbysebion am swyddi a disgrifiadau swydd. Asesir medrau siarad ac ysgrifennu fel rhan o'r broses recriwtio.

Mae hysbysebion recriwtio ar gyfer pob swydd yn Estyn, ac am hyfforddiant ar gyfer arolygu, yn rhai Cymraeg a Saesneg, ac yn cael eu dangos gyda'i gilydd. Mae'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Rydym yn nodi'n glir bod croeso i ymgeiswyr ymgymryd â'r broses recriwtio yn Gymraeg.

I gyflawni hyn, rydym yn:

- cyhoeddi ein hysbysebion ar gyfer swyddi a chyrsgiau hyfforddi yn unol â'n polisi ac yn eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu llunio a'u cyhoeddi yn unol â'n gofynion
- trefnu bod gwybodaeth a ffurflenni cais dwyieithog ar gyfer ymarferion recriwtio allanol ar gael ar ein safle mewnwyd
- sicrhau bod modd cynnal cyfweiliadau dethol yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd fel y bo'n briodol, yn unol â dewis yr ymgeisydd (er bod angen asesu gallu yn y ddwy iaith yn y cyfweiliad ar gyfer swyddi lle mae gallu yn y Gymraeg yn ofyniad)

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd gwneir hyn yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.

Cadw cofnodion

Rydym yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfedd â safonau'r Gymraeg (pa un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ai peidio).

Rydym hefyd yn cadw cofnod o unrhyw gamau a wneir i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi. Rydym yn cadw cofnod o nifer y swyddi newydd neu swyddi gwag a gategoreiddiwyd. Rydym yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Cymraeg), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, a lefel y sgiliau hynny, gan gynnwys nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg.

Goruchwylio cydymffurfiaeth

Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i weithredu'n ôl â safonau sydd wedi'u rhannu yn bedwar categori:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llunio Polisi
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Defnyddir taenlen o'r safonau i asesu os ydym yn cydymffurfio a bod y swyddogion perthnasol yn medru mesur perfformiad eu hadrannau ac yn adrodd ar unrhyw ddiffygion yng nghyfarfodydd tymhorol y Gweithgor Iaith Cymraeg. Ar ben hynny, rydym yn gweithredu system hunanwerthuso a gwerthuso cymheiriaid fesul adran yn ein cyfarfodydd.

Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg

Mae Estyn yn ymrwymedig i wireddu ein dyletswyddau cyfreithiol dan y safonau iaith yn ogystal â'n gweledigaeth o ran y Gymraeg fel yr amlinellir yn ein [Cynllun Strategol y Gymraeg 2021-2024](#)

Ymdrechwn i hyrwyddo cysyniad y 'cynnig rhagweithiol' yn hytrach nag ymagwedd adweithiol at wasanaethau Cymraeg. Byddwn yn parhau â'n prosesau hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn fewnol er mwyn mesur effeithlonrwydd ein trefniadau cydymffurfio presennol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio gwella'n safonau cyflenwi gwasanaethau yn gyson a chydymffurfio â deddfwriaeth fel y waelodlin ofynnol i ni allu gwella ohoni.

Mae'r ddogfen bolisi iaith Gymraeg hon yn amlinellu sut rydym yn hybu a hwyluso defnydd y cyhoedd a rhanddeiliaid o'r Gymraeg wrth ymwneud â ni.